WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ionawr 2014
www.wao.gov.uk

# Indemniad ar gyfer Gwrth-hawliad Enllib
# **Cyngor Sir Caerfyrddin**
## Adroddiad er Budd y Cyhoedd

# Indemniad ar gyfer Gwrth-hawliad Enllib

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod neu unrhyw berson arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru a wnaeth fy nghynorthwyo i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Richard Harries a Geraint Norman.

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig Cyngor Sir Caerfyrddin**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at benderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin i indemnio'r Prif Weithredwr o ran costau gwrth-hawliad enllib nad oedd ganddo, yn fy marn i, yr awdurdod statudol i'w wneud. Roedd y prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor wrth wneud y penderfyniad hwn yn ddiffygiol hefyd.


Crynodeb 4

Argymhelliad 5

Cefndir 6

Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol, sef indemnio'r Prif Weithredwr o ran costau gwrth-hawliad enllib, yn anghyfreithlon ac mae'r taliadau a wnaed o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw yn arwain at eitem cyfrif sy'n mynd 'yn groes i'r gyfraith' 8

Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol yn anghyfreithlon oherwydd, yn ôl y cyhoeddiadau penodol yn Erthyglau 6(3) o Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006, nid oes gan y Cyngor yr awdurdod statudol i roi indemniad o ran dwyn hawliad neu wrth-hawliad am ddifenwad. Ni chaiff y Cyngor ddibynnu ar adran 111 o Ddeddf 1972 i osgoi'r cyfyngiad hwnnw ar ei bwerau 8

Roedd methiannau i'w gweld yn y trefniadau llywodraethu a'r prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor 9

Y camau nesaf 13

# Crynodeb

1 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried p'un a ddylwn, er budd y cyhoedd, gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod yr archwiliad, er mwyn i'r corff archwiliedig ei ystyried neu er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd ato.

2 Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at benderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) i indemnio'r Prif Weithredwr o ran costau gwrth-hawliad enllib nad oedd ganddo, yn fy marn i, yr awdurdod statudol i'w wneud. Roedd y prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor wrth wneud y penderfyniad hwn yn ddiffygiol hefyd. Credaf ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r digwyddiadau o fewn y Cyngor. Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor egluro'r camau a gymerwyd ganddo i wella trefniadau ac i leihau'r risg y caiff methiannau llywodraethu o'r fath eu hailadrodd gymaint â phosibl.

3 Yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol y Cyngor ar 23 Ionawr 2012 cytunwyd y byddai'r Cyngor yn rhoi indemniad i'r Prif Weithredwr o ran dwyn gwrth-hawliad enllib yn erbyn unigolyn. Ystyriwyd bod y mater yn 'fusnes brys wedi'i eithrio' ac nid ymddangosodd ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Prif Weithredwr yn y cyfarfod ond ni wnaeth ddatgan buddiant na gadael yr ystafell pan drafodwyd y mater.

4 Rwyf wedi adolygu'r penderfyniad a wnaed fel rhan o archwiliad statudol 2012-13 ac wedi dod i'r casgliad bod penderfyniad y Bwrdd Gweithredol ar 23 Ionawr 2012 i roi indemniad i'r Prif Weithredwr o ran dwyn gwrth-hawliad enllib yn anghyfreithlon. Byddai unrhyw daliad a wnaed yn unol â'r penderfyniad hwnnw yn arwain at eitem cyfrif sy'n mynd 'yn groes i'r gyfraith'. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol yn anghyfreithlon am y rhesymau canlynol:

a Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol yn anghyfreithlon oherwydd, yn ôl y cyhoeddiadau penodol yn Erthyglau 6(3) o Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006, nid oes gan y Cyngor yr awdurdod statudol i roi indemniad o ran dwyn hawliad neu wrth-hawliad am ddifenwad. Ni chaiff y Cyngor ddibynnu ar adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) i osgoi'r cyfyngiad hwnnw ar ei bwerau.

b Roedd methiannau i'w gweld yn y trefniadau llywodraethu a'r prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

5 Ym mlwyddyn ariannol 2012-13, talodd y Cyngor £23,217 mewn costau cyfreithiol allanol o dan y penderfyniad i indemnio'r Prif Weithredwr o ran dwyn y gwrth-hawliad enllib. Talwyd £3,209 o gostau cyfreithiol allanol pellach o dan y penderfyniad yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14 (erbyn 31 Rhagfyr 2013). Mae'r gwrth-hawliad enllib yn dal i fynd rhagddo ac nid yw'n glir beth fydd y costau cyfreithiol allanol terfynol i'r Cyngor.

6 Rwyf wedi rhannu fy nghyngor cyfreithiol â'r Cyngor.  Rwyf wedi cael cael cyflwyniadau gan y Cyngor, nad yw'n derbyn bod y penderfyniad i indemnio'r Prif Weithredwr yn anghyfreithlon. Ceisiai'r cyflwyniadau hyn gyfiawnhau'r penderfyniad a wnaed ond nid ydynt wedi newid fy marn ar gyfreithlondeb y penderfyniad dan sylw.

## Argymhelliad

### Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol, 23 Ionawr 2012

A1 Dylai'r Cyngor ddirymu'r penderfyniad a thynnu'r indemniad a roddwyd i'r Prif Weithredwr yn ôl.

# Cefndir

7 Cafodd achos difenwi ei ddwyn gan unigolyn yn erbyn Prif Weithredwr y Cyngor. Yn dilyn hynny, yn ei rinwedd bersonol, gwnaeth y Prif Weithredwr wrth-hawliad enllib yn erbyn yr unigolyn gan honni iddi ei ddifenwi ef.

8 Yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol y Cyngor ar 23 Ionawr 2012 cytunwyd y byddai'r Cyngor yn rhoi indemniad i'r Prif Weithredwr o ran costau cyfreithiol yr achos. Ystyriwyd bod y mater yn 'fusnes brys wedi'i eithrio' ac nid ymddangosodd ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Prif Weithredwr yn y cyfarfod ond ni wnaeth ddatgan buddiant na gadael yr ystafell pan drafodwyd y mater.

9 Yn adroddiad y Cyngor a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol, nodwyd mai cyngor y Cwnsel yn 2008 (mewn perthynas ag ystyriaeth flaenorol) oedd bod gan y Cyngor y pŵer cyfreithiol i ariannu achos cyfreithiol am ddifenwi ond mai dim ond mewn 'amgylchiadau eithriadol' y dylid arfer pŵer o'r fath. At hynny, cynghorodd Cwnsel y Cyngor y dylid cael cyngor cyfreithiol penodol pellach ac y gallai unrhyw benderfyniad i arfer pŵer o'r fath, fel y bodolai, gael ei herio drwy adolygiad barnwrol ar sail cyfraith gyhoeddus gonfensiynol.

10 Mae rhai egwyddorion cyffredinol i'w hystyried. Mae'r Cyngor yn gweithredu'n unol â statud ac, fel y cyfryw, dim ond yr hyn sy'n statudol y caiff ei wneud. Nid oes gan y Cyngor bŵer penodol i ariannu achosion cyfreithiol ar ei ran ei hun nac ac ar ran ei gyflogeion. Fel pob corff statudol, mae gan y Cyngor fân bwerau, fel sydd wedi'u cydnabod gan gyfraith gwlad ers sawl blwyddyn, ond a gaiff eu deddfu bellach yn adran 111 o Ddeddf 1972. Felly, heb ddarpariaeth benodol, mae angen ystyried a allai'r gweithgarwch arfaethedig ddod o dan y mân bŵer hwn.

11 Caiff yr egwyddor bod gan awdurdodau lleol y pŵer i gyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni eu swyddogaethau rym statudol o dan adran 111 o Ddeddf 1972. Yn ôl Adran 111(1) 'Without prejudice to any powers exercisable apart from this section and subject to the provisions of this Act and any other enactment passed before or after this Act, a local authority shall have power to do anything (whether or not involving the expenditure, borrowing or lending of money or the acquisition or disposal of any property or rights) which is calculated to facilitate, or is conducive or incidental to, the discharge of any of their functions'.

12 Ymdrinnir ag ariannu amddiffyniad achosion cyfreithiol gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'u haelodau a'u swyddogion yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion (Cymru) 2006 a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) 2004 yn Lloegr. O dan y gorchmynion hyn, caiff awdurdodau lleol indemnio swyddogion ac aelodau mewn rhai amgylchiadau penodol.

13 Mae gorchmynion 2004 a 2006 hefyd yn nodi na fydd indemniad yn gymwys mewn perthynas â gwneud honiadau difenwi gan aelodau neu swyddogion. Yn ôl Erthygl 6(3) o Orchymyn 2006, 'No indemnity may be provided under this Order in relation to the making by the member or officer indemnified of any claim in relation to an alleged defamation of that member or officer but may be provided in relation to the defence by that member or officer of any allegation of defamation made against him'.

14 Mae'r Cyngor yn dal i gredu bod adran 111(1) o Ddeddf 1972 a'r dyfarniad yn *Comninos (R (OAO Comninos) v Cyngor Bwrdeistref Bedford* [2003] EWHC 121 (Gwein)) yn caniatáu i'r Cyngor roi indemniad. Fodd bynnag, mae darpariaethau Gorchymyn 2006 ar hyn yn glir iawn ac fe'u cyflwynwyd i ddileu unrhyw ansicrwydd a fodolai cyn y gorchmynion newydd. Caiff y Cyngor indemnio'r Prif Weithredwr o ran yr hawliad yn ei erbyn ond nid o ran gwrth-hawliad.

## Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol, sef indemnio'r Prif Weithredwr o ran costau gwrth-hawliad enllib, yn anghyfreithlon ac mae'r taliadau a wnaed o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw yn arwain at eitem cyfrif sy'n mynd 'yn groes i'r gyfraith'

### Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol yn anghyfreithlon oherwydd, yn ôl y cyhoeddiadau penodol yn Erthyglau 6(3) o Orchymyn 2006, nid oes gan y Cyngor yr awdurdod statudol i roi indemniad o ran dwyn hawliad neu wrth-hawliad am ddifenwad. Ni chaiff y Cyngor ddibynnu ar adran 111 o Ddeddf 1972 i osgoi'r cyfyngiad hwnnw ar ei bwerau

15 Mae'r adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol yn nodi pam bod y Cyngor o'r farn bod y datganiadau difenwi honedig yn ymwneud â'r Prif Weithredwr yn hytrach na'r Cyngor, a pham yr ystyrir ei bod yn gyfreithlon ac er budd y cyhoedd i roi indemniad.

16 Fel y disgrifiwyd uchod, mae gan y Cyngor y pŵer drwy rinwedd Erthygl 5 o orchymyn 2006 i roi indemniad mewn perthynas ag amddiffyn hawliad difenwi yn erbyn y Prif Weithredwr. Codir cwestiynau am gyfreithlondeb mewn perthynas â'r gwrth-hawliad.

17 Mae bodolaeth y pwerau penodol sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru o dan orchymyn 2006 yn gyfystyr â gwaharddiad awgrymedig ar fodolaeth unrhyw bwerau ehangach na'r rhai a osodwyd yn benodol. Neu, fel arall, nid oes modd dibynnu ar fân bwerau (adran 111 o Ddeddf 1972) i ymestyn pwerau penodol nac i osgoi'r cyfyngiadau arnynt.

18 O ganlyniad i orchymyn 2006, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i ariannu, neu indemnio cost amddiffyniad gan swyddog mewn achos difenwi a gaiff ei ddwyn yn ei erbyn ond nid oes ganddynt y pŵer i ariannu, nac indemnio cost, gamau i ddwyn achos difenwi. Bellach, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru y pwerau cyfyngedig a roddwyd gan orchymyn 2006 mewn perthynas â rhoi indemniadau i aelodau a swyddogion ac ni allant geisio osgoi'r cyfyngiad ar y pwerau hynny drwy ddibynnu ar y mân bwerau o dan adran 111(1) o Ddeddf 1972.

19 Dadleuodd cyngor y Cwnsel i'r Cyngor yn 2008 nad oedd gorchymyn 2006 yn cael yr effaith a eglurwyd uchod. Cynghorodd Cwnsel y Cyngor fod amheuaeth a oedd y pŵer y cyfeiriwyd ato yn adran 111 o Ddeddf 1972 yn dal i fodoli er mwyn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i ariannu achosion difenwi, ond mai dim ond mewn 'amgylchiadau eithriadol' y dylid arfer pŵer o'r fath. Daeth y Cwnsel i'r casgliad hwnnw ar sail y Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau a'r canllawiau drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag,

mynegwyd barn y Cwnsel mewn termau gofalus iawn, gan nodi y byddai'n 'anghyffredin iawn' i benderfyniad i roi indemniad i ariannu achos difenwi fod yn rhesymol ac mai dim ond yn ddadleuadwy yr oedd y pŵer yn bodoli. Hefyd, nododd y Cwnsel fod cyfraith achos yn awgrymu y dylai synnwyr cyffredin rybuddio pob awdurdod namyn y rhai mwyaf cyfreithgar rhag ariannu achosion difenwi.

20 Ni chaiff y termau gofalus a gwylaidd y mynegwyd barn y Cwnsel i'r Cyngor ynddynt eu hadlewyrchu yn yr adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol. Yn hytrach, mae'r adroddiad yn cynrychioli ei gyngor mewn termau diamwys - y gellir rhoi indemniad ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, er na chafodd y rhain eu diffinio.

21 Rhydd gorchymyn 2006 god statudol cynhwysfawr i bennu sut a phryd y gellir rhoi indemniadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru o ran y costau cyfreithiol yr eir iddynt gan aelodau a swyddogion. Yn fy marn i, roedd gorchymyn 2006 yn fwriad gan Lywodraeth Cymru (a'r Senedd cyn hynny) i reoleiddio'r broses o roi indemniadau a gwahardd yn benodol indemniadau o'r fath o ran dwyn achosion difenwi. Felly, yn fy marn i, roedd penderfyniad y Bwrdd Gweithredol yn anghyfreithlon.

## Roedd methiannau i'w gweld yn y trefniadau llywodraethu a'r prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor

### Roedd y penderfyniad yn anghyfreithlon oherwydd cymerodd y Prif Weithredwr ran yn y broses o'i wneud er bod ganddo fuddiant personol ac ariannol ynddo a oedd yn ei anghymwyso

22 Ni chaiff unigolyn gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau awdurdod lleol os oes posibilrwydd gwirioneddol y byddai buddiant ariannol neu bersonol yng nghanlyniad y penderfyniad yn dylanwadu arno.

23 Mae'r broses gwneud penderfyniadau yn ehangach na'r penderfyniad ei hun ac mae'n cynnwys presenoldeb swyddogion mewn cyfarfod. Ni chaiff unigolyn gymryd rhan mewn proses gwneud penderfyniadau os oes posibilrwydd gwirioneddol y byddai buddiant ariannol neu bersonol yng nghanlyniad y penderfyniad yn dylanwadu arno (gweler *R v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ex parte Kirkstall Valley Campaign Ltd* [1996] 3 All ER 304; *Porter v Magill* [2002] 2 AC 357).

24 Rhaid i unrhyw fuddiant ariannol neu bersonol gael ei ddatgan ac ni chaiff unigolyn â buddiant o'r fath gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau onid yw'r buddiant hwnnw yn rhy amherthnasol neu anarwyddocaol i fod yn bwysig. Yn gyffredinol, os bydd unigolyn â buddiant anghymhwyso yn cymryd rhan mewn proses gwneud penderfyniadau, bydd y penderfyniad a wneir yn annilys (gweler achos *Kirkstall Valley* ac *R v Hendon RDC ex parte Chorley* [1933] 2 KB 696).

**25** Mae'r Cyngor yn anghytuno â'm barn i'r Prif Weithredwr gymryd rhan yn y broses o wneud y penderfyniad ac mae wedi ein hysbysu o'r canlynol:

- **a** bod y Bwrdd Gweithredol yn cynnal rhag-gyfarfod sy'n para awr er mwyn paratoi ar gyfer ei gyfarfodydd ffurfiol;
- **b** ar yr achlysur hwn, mynychodd y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith y rhag-gyfarfod er mwyn ymdrin ag unrhyw broblemau â'r adroddiad;
- **c** nid oedd y Prif Weithredwr yn bresennol yn y rhag-gyfarfod;
- **ch** rhoddwyd amlinelliad i'r aelodau o'r cyngor amrywiol a gafwyd a gofynnwyd llawer o gwestiynau i'r swyddogion; ac
- **d** o ganlyniad, roedd yr aelodau mewn sefyllfa i wneud penderfyniad gwybodus yn y cyfarfod ffurfiol.

**26** Nid oes cofnod ffurfiol o'r rhag-gyfarfod hwn sy'n codi pryderon am ba mor agored a thryloyw oedd y broses a ddilynwyd i wneud y penderfyniad. Yn ôl cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 23 Ionawr, dim ond 15 munud a gymerodd y cyfarfod ffurfiol ei hun (i ystyried tair eitem fusnes). Mae hyn yn awgrymu mai prin y trafodwyd y mater yn y cyfarfod ffurfiol ond mae'r cofnodion yn dangos y cafodd y penderfyniad ei wneud yn y cyfarfod ffurfiol.

**27** Rwyf wedi ystyried barn y Cyngor ac ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, rwy'n fodlon bod y Prif Weithredwr yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ac na wnaeth ddatgan buddiant yn yr eitem ar yr agenda, ac felly, yn fy marn i, cymerodd ran yn y broses o wneud y penderfyniad er bod ganddo fuddiant ariannol anghymwysol yng nghanlyniad y penderfyniad. Yn fy marn i, mae penderfyniad y Bwrdd Gweithredol yn anghyfreithlon am y rheswm pellach hwn.

## Nid ystyriwyd materion perthnasol wrth wneud y penderfyniad (*Wednesbury* afresymol)

**28** Rhaid i'r pwerau hynny sydd gan y Cyngor gael eu harfer yn rhesymol gan ystyried yr holl faterion perthnasol: gweler Associated Provincial Picture *Houses v Wednesbury Corporation* [1948] 1KB 223.

**29** Nid ystyriodd y Cyngor y posibilrwydd y gallai'r Prif Weithredwr ariannu ei hawliad o dan gytundeb ffi amodol ac fe'i gwrthodwyd yn ôl pob golwg ar y sail, gan mai gwrth-hawliad oedd hawliad y Prif Weithredwr, ei bod yn 'synhwyrol, cyson a mwy costeffeithiol' i gadw'r un Cwnsel cyfreithiol (â'r hyn a ddefnyddiwyd i amddiffyn yr hawliad gwreiddiol). Ni cheir esboniad ynghylch pam na allai'r un gynrychiolaeth gyfreithiol gael ei hariannu mewn ffordd wahanol ac nid oes arwydd bod y Cyngor wedi ystyried unrhyw fath arall o gamau cyfreithiol y gallai fod wedi'u cymryd i fodloni ei ddyletswydd gofal tuag at ei gyflogeion, fel camau aflonyddu.

**30** Nid oes unrhyw arwydd ychwaith fod y Bwrdd Gweithredol wedi ystyried barn y Cwnsel o ran rhagolygon llwyddiant. Roedd hynny'n ystyriaeth berthnasol nad yw'n ymddangos yn yr adroddiad ac ni chyfeirir ati yng nghofnodion y penderfyniad. Eto i gyd, mae'r Cyngor wedi nodi cael cyngor y Cwnsel yn 2012 yn hwyr fel cyfiawnhad dros drin y mater fel eitem o fusnes brys (gweler ymhellach isod).

**31** Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod safbwyntiau Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu ceisio ynghylch unrhyw bryderon a oedd ganddi am roi indemniad. O gofnodion y cyfarfod, nid oes unrhyw dystiolaeth i'r Bwrdd Gweithredol gael gwybod am safbwyntiau Swyddfa Archwilio Cymru wrth wneud ei benderfyniad. Roedd hyn yn fater perthnasol arall a ddylai fod wedi'i ystyried wrth wneud y penderfyniad.

32 Yn fy marn i, mae'r materion hyn a nodir uchod yn cadarnhau bod y penderfyniad a wnaed yn *Wednesbury* afresymol.

## Torrwyd gweithdrefn ond ni wnaeth wahaniaeth perthnasol i ganlyniad y mater

33 Ystyriwyd bod yr adroddiad yn eitem frys a oedd wedi'i heithrio yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 23 Ionawr 2012. Ystyriwyd bod y mater wedi'i eithrio drwy rinwedd paragraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972. Mae hyn yn eithrio, o'r gofynion mynediad i wybodaeth arferol, wybodaeth y gellid cynnal hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol mewn achosion cyfreithiol mewn perthynas â hi.

34 Mae'r adroddiad yn cyfeirio at farn y Cwnsel yn 2008, ac mae cysylltiad annatod rhwng y cynnwys hwnnw a gweddill yr adroddiad. Fel y cyfryw, roedd cymhwyso'r eithriad yn rhesymol.

35 Fodd bynnag, mae amheuon ynghylch trin y mater fel eitem frys. Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi i'r Cadeirydd benderfynu ystyried y mater fel eitem o fusnes brys am fod angen gweithredu cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol. Mae'r Cyngor yn awgrymu na allai'r eitem gael ei chynnwys ar yr agenda gan fod cyngor y Cwnsel ynghylch rhagolygon llwyddiant y gwrth-hawliad wedi dod i law yn hwyr ar 17 Ionawr 2012 a bod yn rhaid i unrhyw wrth-hawliad gael ei gyflwyno erbyn 24 Ionawr 2012.

36 Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth, Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (Rheoliadau 2001) yn nodi bod yn rhaid rhoi o leiaf dri diwrnod clir o rybudd i'r cyhoedd o gyfarfodydd fel rhai'r Bwrdd Gweithredol a'r eitemau i'w hystyried mewn cyfarfodydd o'r fath. Roedd tri diwrnod gwaith clir ar gael rhwng cael cyngor y Cwnsel a'r cyfarfod sy'n golygu y gallai ac y dylai'r mater fod wedi'i gynnwys ar yr agenda a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfarfod.

37 Ni waeth am hynny, y cyngor a gafwyd gan y Cwnsel yn 2008 oedd yr hyn a gafodd ei gynnwys yn yr adroddiad. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys unrhyw gynnwys sylweddol ynghylch y cyngor a gafwyd ar ragolygon a'r cyngor hwnnw a gafwyd yn hwyr. Yr unig gyfeiriad at y cyngor mwy diweddar (2012) yw datganiad bod y Cwnsel wedi nodi bod dau reswm dros weithredu y byddai gwrth-hawliad yn seiliedig arnynt. Ni fanylir ar y rhesymau hynny na barn y Cwnsel ynghylch rhagolygon llwyddiant.

38 O ystyried bod yr eithriad rhag cyhoeddi wedi'i weithredu'n gywir, ni fyddai'r adroddiad wedi cael ei gyhoeddi cyn y cyfarfod a hyd yn oed petai aelodau'r cyhoedd wedi bod yn ymwybodol bod yr eitem yn mynd i gael ei hystyried, ni fyddent wedi gallu aros yn yr ystafell tra bo'r mater yn cael ei drafod. Fodd bynnag, gallent fod wedi cysylltu â'u cynghorwyr eu hunain a cheisio eu lobïo ar y mater. Heb wybod unrhyw beth am y mater (heblaw am y teitl amwys - 'Indemniad Swyddogion'), mae'n anodd dychmygu pa lobïo ystyrlon, os o gwbl, a allai fod wedi digwydd.

39 Mae Rheoliad 5 o Reoliadau 2001 yn caniatáu goddefeb rhag y rheol tri diwrnod clir dim ond pan fo 'amgylchiadau arbennig' yn cyfiawnhau hynny ac mae'n rhaid eu nodi yn y cofnodion. Yn yr achos dan sylw, nid yw'r cyfiawnhad a roddwyd yn ddigonol ac nid yw'n egluro pam na allai tri diwrnod o rybudd gael ei roi. Mae'r Cyngor yn awgrymu nad dim ond y ffaith bod angen gweithredu cyn y cyfarfod nesaf a arweiniodd at ystyried yr eitem ar frys ond mai'r prif reswm oedd y ffaith bod cyngor y Cwnsel ar ragolygon wedi dod i law yn hwyr ar

17 Ionawr 2012. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid ymddangosodd y cyngor hwnnw yn yr adroddiad.

40 Yn fy marn i, fodd bynnag, ni wnaeth yr achos hwn o dorri gweithdrefn wahaniaeth perthnasol i ganlyniad y mater.


# Y camau nesaf

**41** Mae Adran 25 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol yn awr i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. Yn y cyfarfod, bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu:

- **a** a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- **b** a yw am dderbyn yr argymhelliad yn yr adroddiad; a
- **c** pha gamau i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhelliad.

**Cydnabyddiaethau**

**42** Hoffwn ddiolch i swyddogion ac aelodau'r Cyngor am eu cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.



Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
30 Ionawr 2014